Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: Adroddiad 2025 Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2025

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:


- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygymraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon LL55 1TH

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cefndir a chyd-destun | 1 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 1 |
| | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 1 |
| | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 1 |
| 2 | Polisi Cynaliadwyedd y Comisiynydd | 1 |
| | Statws Carbon Sero Net erbyn 2030 | 3 |
| 3 | Perfformiad amgylcheddol y Comisiynydd | 3 |
| 4 | Adroddiad ar Weithredu | 4 |
| 5 | Adolygu | 6 |

# 1 Cefndir a chyd-destun

### Comisiynydd y Gymraeg

1.1 Prif nod Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd), sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

1.2 Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

1.3 Fel awdurdod cyhoeddus o dan Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 , mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau yng Nghymru.

1.4 O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r camau fydd yn cael eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

1.5 Mewn perthynas â bioamrywiaeth mae'r Comisiynydd yn meddiannu dwy swyddfa fel tenant yng Nghymru. Nid yw swyddogaethau'r Comisiynydd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.6 Er nad yw Comisiynydd y Gymraeg yn gorff cyhoeddus sydd wedi ei ymrwymo gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i'r Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy a amlinellir yn Adran 5 y Ddeddf.

1.7 Drwy weithredu yn unol ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, bydd y Comisiynydd yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cwrdd heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

# 2 Polisi Cynaliadwyedd y Comisiynydd

2.1 Fel nodwyd eisoes, yn unol â'r gofynion o dan y Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'r Comisiynydd wedi datblygu cynllun gweithredu i gyd-fynd â'i Bolisi

Cynaliadwyedd. Roedd eisoes cynllun gweithredu mewn lle i gyd-fynd â'r Polisi cyntaf a gyhoeddwyd yn ôl yn 2019. Fodd bynnag, yn sgil cau swyddfeydd y Comisiynydd rhwng Mawrth 2020 a Medi 2022 oherwydd Covid-19, roedd gallu'r Comisiynydd i gyflawni'r cynllun gweithredu hwnnw ac adrodd ar faterion amgylcheddol wedi ei gyfyngu'n sylweddol.

2.2 Ers hynny, mae'r Comisiynydd wedi adolygu'r cynllun a'r Polisi ac yn dilyn ymgysylltu â staff wedi cymeradwyo Polisi Cynaliadwyedd a chynllun gweithredu newydd ar gyfer y cyfnod 2024-27. Mae'r Polisi a'r cynllun newydd bellach yn adlewyrchu'r arferion gweithio newydd a fabwysiadwyd yn dilyn cyfnod y pandemig ac mae'n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Cydymffurfio â phob deddfwriaeth, rheoliad a chod ymarfer perthnasol, a gwneud mwy na'r hyn sydd raid lle y bo'n ymarferol.
- Integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd i'w benderfyniadau busnes pan fo hynny'n bosibl.
- Sicrhau bod ei holl swyddogion yn hollol ymwybodol o'r Polisi Cynaliadwyedd a'u bod yn ymrwymedig i'w roi ar waith a'i wella.
- Lleihau effaith pob gweithgaredd swyddfa a theithio ar gynaliadwyedd.
- Sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o'i Bolisi Cynaliadwyedd, a'u hannog i fabwysiadu arferion rheoli cynaliadwy cadarn.
- Adolygu, adrodd yn flynyddol, ac ymdrechu'n barhaus i wella ei berfformiad cynaliadwyedd.

2.3 Fel sefydliad sy'n meddiannu adeilad swyddfa fel tenant yn unig (h.y. nid ydym yn berchen ar eiddo na thir, nac yn eu rheoli) ac nad yw ein swyddogaethau'n uniongyrchol gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir, mae'r Comisiynydd wedi ei gategoreiddio fel sefydliad Grŵp 1 at ddibenion y ddyletswydd. O ganlyniad, mae gofyn bod y sefydliad yn gweithio tuag at amcanion rhif 1, 4 a 6 o Gynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru. Mae'r Polisi a'r cynllun newydd yn rhoi sylw i'r amcanion hynny drwy gyfrwng cyfres o weithgareddau sy'n gysylltiedig â themâu penodol fel a ganlyn:

| **Thema** | **Amcan NRAP cysylltiedig** |
|---|---|
| • Addysgu swyddogion am bwysigrwydd ymwybyddiaeth amgylcheddol a bioamrywiaeth<br>• Integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth ddewis cyflenwyr a gwasanaethau i ddarparu cynhyrchion a/neu wasanaethau | 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel. |
| 2.4 Gweithio tuag at leihau'r defnydd o drydan bob blwyddyn (fel tenant mewn adeilad a rennir, nid oes gan y | 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd |

| | |
|---|---|
| Comisiynydd reolaeth lwyr ar y defnydd o ddŵr, gwres a golau)<br><br>• Gweithio tuag at greu cynnydd bob blwyddyn yn nifer y swyddogion sy'n defnyddio dulliau teithio carbon isel (megis cerdded, seiclo, rhannu cerbyd a theithio ar gludiant cyhoeddus) drwy ddatblygu a hyrwyddo<br><br>• Cydymffurfio gyda gofynion ailgylchu newydd yn y gweithle | |
| • Sefydlu trefniadau i gydymffurfio gyda'r Polisi | 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion |

### Statws Carbon Sero Net erbyn 2030

2.5 Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i ddefnyddio'r camau a nodir yn ei Bolisi Cynaliadwyedd a'r cynllun gweithredu i weithio tuag at nod y sector cyhoeddus o gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2030.

# 3 Perfformiad amgylcheddol y Comisiynydd

3.1 Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd, gan wella'i reolaeth a'i berfformiad amgylcheddol yn barhaus, sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau a gofynion amgylcheddol ac atal llygredd.

3.2 Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod ei brif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o'r defnydd o ynni, cludiant, cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau swyddfa. Mae felly wedi ymrwymo i geisio lleihau ei effeithiau ar yr amgylchedd drwy ganolbwyntio ar y meysydd hyn fel y nodir isod:

- **Defnyddio ynni** - fel un o nifer o denantiaid mewn bloc o hen swyddfeydd, nid yw'n bosibl cael rheolaeth lawn ar gyfleusterau dŵr, gwres a golau. Fodd bynnag, lle'n bosib, anogir swyddogion i fod yn ddarbodus gyda'u defnydd o ynni drwy fod yn diffodd cyfrifiaduron a sgriniau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, diffodd golau pan nad oes angen a dim ond argraffu deunydd sydd wir ei angen.

- **Defnyddio cerbydau** - nid yw'r swyddfa yn berchen unrhyw gerbydau, ond mae'n annog llogi cerbydau ar gyfer teithiau hir er mwyn sicrhau gwell

effeithlonrwydd; mae hyn yn cynnwys cerbydau trydan lle byddant ar gael. Anogir swyddogion i rannu cerbydau ar gyfer teithiau swyddogol pan fo hynny'n ymarferol. Pan fo'n briodol, anogir defnyddio cludiant cyhoeddus fel yr opsiwn cyntaf ar gyfer yr holl deithio angenrheidiol.

- **Cyfarfodydd** - Osgoi teithio'n ffisegol i gyfarfodydd pan fo dewisiadau eraill ar gael ac yn ymarferol, megis defnyddio Teams neu offer fideo gynadledda, ac amseru cyfarfodydd yn effeithlon er mwyn osgoi teithiau lluosog.
- **Rheoli papur** - mae gan yr holl swyddogion fynediad i e-bost a'r rhyngrwyd, ac mae cyfarfodydd a gwaith di-bapur yn cael eu hannog. Nid yw papurau ar gyfer cyfarfodydd yn cael eu hargraffu fel mater o drefn mwyach.
- **Caffael** - mae gweithdrefnau'r Comisiynydd yn cynnwys gofynion i fod yn ystyried materion cynaliadwyedd wrth gaffael gwasanaethau a nwyddau gan ddarparwyr allanol.
- **Gwaredu Gwastraff** - defnyddir gweithdrefnau ar gyfer ailgylchu pob math o wastraff yn cynnwys papur, cardfwrdd, plastig, metel, gwydr a bwyd. Mae papur sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif yn cael ei waredu drwy ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol. Mae peiriannau dŵr wedi eu darparu yn y swyddfeydd i ddileu'r angen am ddŵr mewn poteli plastig.
- **Addysgu** - mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth ei swyddogion o faterion cynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys sut y gall swyddogion gyfrannu o fewn a thu allan y gweithle.
- **Arferion gwaith** - drwy'r Canllaw Gweithio Hybrid, galluogir staff i wneud penderfyniadau am eu man gwaith, lle'n bosib a phriodol. Mae'r canllaw hwn yn caniatáu i staff weithio o bell, sy'n lleihau ôl troed carbon cyffredinol y sefydliad.

# 4 Adroddiad ar Weithredu

4.1 Mae'n ofynnol, o dan Adran 6(7) o'r Ddeddf i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad *"diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio ac isadran (1)".* Cyhoeddwyd yr adroddiad diwethaf yn Rhagfyr 2022 ac felly mae'n amserol adrodd eto ar yr hyn wnaed i gydymffurfio â'r ddyletswydd dros y dair blynedd ddiwethaf.

4.2 Ers yr adroddiad diwethaf yn 2022, cafodd Polisi Cynaliadwyedd a chynllun gweithredu newydd wedi ei gyhoeddi yn Ebrill 2024. Mae'r Polisi hwnnw yn egluro bod y ddyletswydd i adrodd ar gynnydd wedi cael ei datblygu i fod yn gymesur â maint a swyddogaeth y sefydliad, gan roi sylw dyledus i'r camau gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd a bioamrywiaeth y gellir eu cymryd. Y mecanwaith ar gyfer gwneud hynny yw o fewn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd lle nodir cynnydd yn erbyn y Polisi a'r cynllun gweithredu.

4.3 Gellir gweld pob un o Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd sy'n cwmpasu'r cyfnod adrodd 2022-2025 yma:

- Adroddiad Blynyddol 2022-23
- Adroddiad Blynyddol 2023-24
- Adroddiad Blynyddol 2024-25

4.4 At ddibenion yr adroddiad hwn, gellir crynhoi'r uchafbwyntiau fel a ganlyn:

- Cyflwyno Canllaw Gweithio Hybrid yn lleihau defnydd ar swyddfeydd a rhoi mwy o ryddid i staff ddewis eu hamgylchedd gwaith sy'n golygu bod cymudo i'r swyddfa, a'r ôl troed carbon o ganlyniad, yn parhau yn is na'r cyfnod cyn y pandemig.
- Gostyngiad sylweddol mewn defnydd a gwastraff a waredir i'r swyddfa yn sgil symud i weithio mewn ffordd fwy di-bapur.
- Dewis cyfarfod yn rhithiol yn gyntaf pan fo hynny'n bosib wedi arwain at leihad yn nifer y teithiol busnes yn sylweddol o'i gymharu gyda'r cyfnod cyn y pandemig.
- Lleihau nifer y swyddfeydd rydym yn eu meddiannu o 4 i 2 gan newid statws y staff oedd wedi eu lleoli yn y swyddfeydd hynny sydd wedi cau i fod yn 'weithwyr cartref'. Symudwyd i swyddfa lai yng Nghaerdydd sydd hefyd wedi arwain at allu rhannu adnoddau a gweithredu yn fwy effeithlon.
- Sefydlu Grŵp mewnol i lywio gweithrediad y polisi a'r cynllun newydd sydd bellach yn cwrdd yn chwarterol dan arweiniad y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol.
- Gosod biniau pwrpasol ar wahân ar gyfer ailgylchu gwastraff o bob math, a gosod arwyddion newydd i godi ymwybyddiaeth am y gofynion ac i annog lleihau gwastraff.
- Darparu hyfforddiant ar newid hinsawdd i bawb yn y sefydliad a hyfforddiant uwch ar llythrennedd carbon i aelodau'r Grŵp mewnol.
- Cyflwyno opsiwn gwyrdd wrth archebu ceir llog.
- Ymchwilio i'r cynllun ceir gwyrdd a thalu am docyn trên blynyddol.
- Cyflwyno eitem yn ymwneud â mater amgylcheddol yn y cylchlythyr mewnol i staff yn chwarterol.

# 5 Adolygu

5.1 Mae cynllun y Comisiynydd wedi ei ymgorffori ar ffurf cynllun gweithredu o fewn ei Bolisi Cynaliadwyedd a caiff ei adolygu bob tair blynedd. Cafodd y cynllun a’r Polisi diweddaraf eu cyhoeddi yn Ebrill 2024 ac felly cant eu hadolygu nesaf yn Ebrill 2027.